

Monmouthshire Select Committee Minutes

Pwyllgor Craffu Lle held at
Neuadd y Sir Brynbuga NP15 1GA Dydd
Dydd Iau, 7fed Tachwedd, 2024, 2.00 pm

Cynghorwyr yn Bresennol

Cynghorydd Sir Jane Lucas (Cadeirydd)
Cynghorydd Sir: Louise Brown, Emma Bryn,
Tomos Davies, Lisa Dymock, Jackie Strong,
Laura Wright, John Crook, Tony Easson,
Angela Sandles, M. Newell

Swyddogion yn Bresennol

Hazel Ilett, Rheolwyr Craffu
Robert McGowan, Swyddog Polisi a Chraffu
Ian Saunders, Prif Swyddog Gweithredu,
BywydMynwy
Colette Bosley, Rheolwr Seilwaith Gwyrdd
Philip Young, Head of Estate

Ymddiheuriadau: Dim

1. Datganiadau o Fuddiant

Dim.

2. Fforwm Agored i'r Cyhoedd

Trafododd y siaradwr cyntaf yr angen am asesiad o'r effaith ar yr amgylchedd ar gyfer datblygiad CS0270, gan amlygu pryderon am ansawdd aer ac allyriadau traffig yn Nhrefynwy. Pwysleisiodd bwysigrwydd monitro a lliniaru effeithiau ar ansawdd aer. Soniodd hefyd am yr anghysondeb rhwng polisïau ansawdd aer a'r angen am well methodolegau monitro er mwyn deall gwir natur allyriadau traffig.

Cododd yr ail siaradwr bryderon am ansawdd dŵr yfed yn Nhrefynwy, gan ddyfynnu adroddiadau gan yr Arolygiaeth Dŵr Yfed am risgiau sylweddol o halogi dŵr, gan grybwyll cryptosporidium yn benodol. Roeddent yn annog ailystyried datblygiad Heol Dixon oherwydd risgiau halogi dŵr posibl. Mynegwyd pryderon ynghylch ymarferoldeb cyflawni 50% o dai cymdeithasol neu fforddiadwy yn natblygiad Dixon Road oherwydd yr heriau economaidd a deddfwriaethol presennol. Nodwyd efallai na fyddai gan gymdeithasau tai yr arian i brynu'r stoc tai fforddiadwy angenrheidiol.

Roedd y trydydd siaradwr yn gwrthwynebu cynnig Redrow Homes i hepgor asesiad o'r effaith ar ecoleg ar gyfer datblygiad Dixon Road, gan ddyfynnu amryw o bryderon amgylcheddol ac ecolegol, gan gynnwys yr effaith ar ddŵr yfed, llygredd aer, a chynefin rhywogaethau mewn perygl.

CAM GWEITHREDU: Anfon y pryderon a'r wybodaeth hyn at yr Aelod Cabinet a swyddogion i'w hystyried

Darllenodd y Cynghorydd Martin Newell lythyr gan breswilydd yn gwrthwynebu'r gorchymyn traffig arbrofol ar Goldwire Lane. Roedd pryderon yn cynnwys arwyddion amwys, tagfeydd posibl, problemau mynediad brys, a'r effaith ar drigolion lleol. Diolchodd y Cadeirydd i'r preswilydd am ei chyfraniad. Nododd y pwyllgor hwn fel

mater sy'n mynd rhagddo a gwahoddodd y preswilydd i ddychwelyd gyda rhagor o wybodaeth maes o law.

Pwysleisiodd y pedwerydd siaradwr bwysigrwydd Vauxhall Bridge fel yr unig lwybr mynediad gwastad i gerddwyr i Gaeau Vauxhall, sy'n cysylltu gogledd a de'r dref. Tynnodd sylw at ei defnydd gan drigolion ar gyfer mynediad i waith, ysgol, a gweithgareddau hamdden, yn enwedig ar gyfer unigolion llai abl.

Cefnogodd y pumed siaradwr y pwyntiau blaenorol ynghylch y bont, ac ailadroddodd ei phwysigrwydd fel llwybr diogel o Osbaston i ganol y dref.

3. Trafodaeth Cwestiwn ac Ateb ar Bont Ingles/Vauxhall, Trefynwy

Anerchodd Philip Young (Pennaeth Ystad, y Weinyddiaeth Amddiffyn) y pwyllgor ac atebodd gwestiynau'r aelodau.

Pwyntiau allweddol gan aelodau:

- Holodd aelod am yr amserlen ar gyfer penderfyniad ac a oes Cynllun B os nad yw cyllid yn cael ei gymeradwyo. Ymatebodd Mr Young na allai ddarparu amserlen bendant na manylion am Gynllun B ond unwaith y bydd cyllid ar gael, bydd y Weinyddiaeth Amddiffyn yn gweithio'n gyflym ac yn agos gyda MCC i sicrhau bod unrhyw anghyfleustra yn dod i ben cyn gynted â phosibl.
- Gofynnodd aelod a yw'r adran Addysg yn ymwybodol bod y bont wedi cau ac a oes ffordd bosib o ariannu trwy Lywodraeth Cymru ar gyfer llwybrau diogel i'r ysgol.
- Darparodd yr Aelod Cabinet Angela Sandles y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymdrechion parhaus i ddatrys cau'r bont, gan gynnwys cyswllt rheolaidd â swyddogion lleol y Weinyddiaeth Amddiffyn a thrafodaethau â chynghor y dref. Pwysleisiodd bwysigrwydd adfer yr hawl tramwy i drigolion.
- Darllenodd yr Aelod Cabinet ddatganiad gan y Cynghorydd Catrin Maby, yn mynegi pryder am effaith cau'r bont ar y gymuned leol a'r angen am ddatrasiad buan.
- Gofynnodd y Cadeirydd am effaith cau Pont Vauxhall ar y gymuned, yn enwedig o ran mynediad diogel i gerddwyr, llesiant y dref, a diogelwch plant sy'n cerdded i'r ysgol. Eglurodd Mr Young fod y bont ar gau ar sail diogelwch y cyhoedd oherwydd pryderon strwythurol. Soniodd bod cynllun i adnewyddu'r bont wedi'i gymeradwyo, ond bod cyllid yn brin ar hyn o bryd. Mae'r mater yn cael sylw lefel uchel o fewn y Weinyddiaeth Amddiffyn, ac unwaith y bydd cyllid ar gael, bydd y gwaith yn cael ei raglennu a'i wneud yn gyflym.

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolchodd y Cadeirydd i Mr Young am fynychu heddiw. Croesawodd unrhyw un sydd heb arwyddo'r ddeiseb ynglŷn â'r bont eto i wneud hynny gan y bydd yn cefnogi Mr Young i ddatrys y mater. Cytunodd y pwyllgor i ysgrifennu llythyr yn cefnogi'r ymgyrch am gyllid i

atgyweirio'r bont, gan bwysleisio pwysigrwydd datrys y mater er lles y gymuned. - **CAM GWEITHREDU**

4. Craffu STEAM

Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Angela Sandles yr adroddiad. Cafwyd cyflwyniad gan Nicola Edwards ac atebodd gwestiynau'r aelodau gyda'r Cynghorydd Sandles.

Pwyntiau allweddol gan aelodau:

- Holodd aelod am y setiau data yn yr adroddiad STEAM, yn benodol sut mae ymwelwyr yn cyrraedd, sut maent yn teithio ar ôl cyrraedd, ac a oes unrhyw fuddsoddiad o ran hybu trafnidiaeth gyhoeddus i dwristiaid. Eglurodd y swyddog fod mwyafrif yr ymwelwyr yn cyrraedd mewn car ac yn teithio o gwmpas mewn car hefyd. Soniodd fod ymdrechion yn cael eu gwneud i hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus a bod gwaith yn cael ei wneud gyda gweithredwyr trafnidiaeth i annog defnydd, er, mae hyn yn anodd mewn cyrchfan wledig fel Sir Fynwy.
- Gofynnwyd ymhellach a oedd unrhyw arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi'n uniongyrchol mewn hyrwyddo twristiaeth ac a oes cydberthynas rhwng buddsoddiadau o'r fath ac effeithiau cadarnhaol ar y data. Ymatebodd y swyddog er bod y tîm yn cofnodi ac yn adrodd ar fetrigau marchnata, mae ymchwil manwl ar ymwelwyr yn ddrud, ac nid oes ganddynt y gyllideb ar hyn o bryd ar gyfer arolygon ymwelwyr ar raddfa fawr. Soniodd y byddai'r Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd yn mynd i'r afael â'r materion hyn ac yn darparu mewnwelediad manylach.
- Gofynnodd aelod am y gydberthynas rhwng ystadegau'r farchnad lafur a'r adroddiad STEAM. Eglurodd y swyddog nad oedd ystadegau'r farchnad lafur yn rhan o'r adroddiad. Eglurodd bod yr adroddiad STEAM yn canolbwyntio ar y nifer o swyddi a gefnogir gan dwristiaeth, a bod hyn wedi'i ddosbarthu ar draws amrywiol sectorau cyflogaeth, ac yn cynnwys unigolion cyflogedig a hunangyflogedig. Soniodd fod y ffigur o 15% yn cynrychioli cyfanswm cyflogaeth yn Sir Fynwy a gefnogir gan dwristiaeth.
- Gofynnodd aelod am gyfraddau defnydd o lety gwesty o'i gymharu â llety hunanarlwy, a holodd am y gefnogaeth i'r farchnad hunanarlwy breifat, gan ystyried ffactorau megis treth twristiaeth, trethi busnes, a'r angen i lety gwyliau gael nifer penodol o ddyddiau ble mae rhywun yn aros ynddynt. Eglurodd y swyddog fod llety di-wasanaeth a hunanarlwy yn gyrru twf effaith economaidd yn Sir Fynwy. Nododd fod y proffil llety yn gwyro o blaid llety heb wasanaeth, sydd wedi gwella'n well ar ôl y pandemig. Tynnodd sylw at yr heriau a wynebir gan ddarparwyr hunanarlwy, megis y trothwy defnydd 182 diwrnod ar gyfer ardrethi busnes, sy'n uwch nag yn Lloegr, a soniodd y gallai'r ardoll ymwelwyr fod yn gyfle os caiff y refeniw a gynhyrchir ei ail-fuddsoddi i wella profiad yr ymwelydd.
- Cwestiynodd yr aelod hefyd yr angen am fwy o lety gwesty yn erbyn gwella opsiynau hunanarlwy. Pwysleisiodd y swyddog bwysigrwydd cael ystod

dda o wahanol fathau o lety er mwyn denu ymwelwyr amrywiol, gan gynnwys y rhai sy'n dewis cyrchfannau ar sail gwestai penodol.

- Gofynnodd aelod sut mae Sir Fynwy yn mynd i'r afael â'r heriau ar dwristiaeth sy'n codi yn sgil tywydd eithafol a sut i ddenu pobl yn ôl. Ymatebodd y swyddog bod cyrchfannau ag atyniadau tywydd gwlyb wedi bod yn fwy gwydn, gan amlygu pwysigrwydd cael profiadau cymhellol nad ydynt yn cael eu heffeithio gan dywydd eithafol. Soniodd bod gan Sir Fynwy eisoes rai atyniadau fel cestyll a neuaddau sy'n darparu ar gyfer yr angen hwn.
- Holodd yr aelod hefyd am ymgorffori adborth ymwelwyr yn y cynllun rheoli cyrchfan newydd ac unrhyw feysydd a nodwyd ar gyfer gwella trwy sesiynau ymgysylltu â rhanddeiliaid. Nododd y swyddog bod materion cyffredin a godwyd yn cynnwys parcio ceir, toiledau cyhoeddus, a chludiant cyhoeddus, sy'n effeithio ar ansawdd bywyd trigolion a phrofiad ymwelwyr. Cadarnhaodd y byddai'r mewnwelediadau hyn yn cael eu hymgorffori yn y Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd.
- Gofynnodd aelod am fewnwelediadau ansoddol a gasglwyd gan ymwelwyr ee beth maent yn ei werthfawrogi am brofiad Sir Fynwy, eu disgwyliadau, a meysydd i'w gwella. Ymatebodd y swyddog bod gan y tîm lawer o ddata craff ar yr hyn y mae ymwelwyr yn ei feddwl am Sir Fynwy, gan gynnwys eu cymhellion, gweithgareddau, a chanfyddiadau o ran cryfderau'r ardal. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyflwyno fel rhan o'r Cynllun Rheoli Cyrchfan newydd.
- O ran cyfyngiadau cyllidebol, gofynnodd yr aelod a oes cyfleoedd ariannu posibl y tu hwnt i Lywodraeth Cymru, gan gynnwys mentrau twristiaeth trawsffiniol, y gallai Sir Fynwy eu negodi. Eglurodd y swyddog bod cyllid ar gyfer marchnata cyrchfannau wedi bod yn lleihau, ac maent yn dibynnu ar bartneriaethau gyda Croeso Cymru, Llywodraeth Cymru, a phartneriaid yn y sector preifat ar gyfer gweithgareddau hyrwyddo. Nododd bod cyfleoedd ar gyfer cyllid gan Lywodraeth y DU yn gyfyngedig oherwydd y canfyddiad ynghylch gweithgarwch dadleoli.
- Holodd aelod am y data ar welyau, yn benodol os yw'n cynnwys meysydd gwersylla ac "airs" (mannau parcio pwrpasol ar gyfer cartrefi modur) o fewn y data llety di-wasanaeth. Cadarnhaodd y swyddog bod y data ar welyau heb wasanaeth yn cynnwys carafannau a gwersylla, yn ogystal â glampio. Eglurodd hefyd nad oes gan Sir Fynwy unrhyw "airs" ar hyn o bryd.
- Gofynnodd aelod am y dadansoddiad o effaith Airbnb ac unedau hunanarlwyo ar dwristiaeth a chyflogaeth. Eglurwyd mai llety â gwasanaeth, megis gwestai, yw'r math mwyaf gwerthfawr o lety gan ei fod yn cynnal mwy o swyddi ac yn darparu'r gwerth uchaf o ran twristiaeth. Fodd bynnag, mae gan Sir Fynwy fwy o lety heb wasanaeth, gan gynnwys hunanarlwyo ac Airbnb, sydd wedi bod yn sbarduno twf economaidd ar ôl y pandemig.
- Gofynnodd yr aelod sut y gellid defnyddio gwefan Cyngor Sir Fynwy i hyrwyddo mwy o ddigwyddiadau yn y sir. Dywedodd y swyddog bod gan wefan Cyngor Sir Fynwy galendr o ddigwyddiadau y gall trefnwyr gweithgareddau

ychwanegu gwybodaeth ato am ddim, gan hyrwyddo digwyddiadau ar draws y sir.

- Gofynnodd aelod am effaith tagfeydd traffig ar brofiad ymwelwyr, ee o amgylch Cas-gwent, a oes potensial ar gyfer cyfleusterau parcio a theithio yn Sir Fynwy, ac a oes unrhyw gyswilt gyda chwmnïau bysiau a threfnwyr teithiau i drefnu teithiau i'r sir. Eglurodd y swyddog bod rhai lleoliadau sy'n cynnal digwyddiadau mwy, megis Cae Ras Cas-gwent, yn trefnu cynlluniau parcio a theithio ar gyfer digwyddiadau mawr. Fodd bynnag, byddai trefnu cynlluniau o'r fath ar gyfer niferoedd llai yn anodd ac yn gostus. Soniodd hefyd bod gweithgarwch y fasnach deithio, gan gynnwys annog cwmnïau bysiau a gweithredwyr teithiau i ddod i Sir Fynwy, yn cael ei wneud ar y cyd fel rhan o ymgyrch farchnata ranbarthol yn Ne-ddwyrain Cymru. Mae hyn yn cynnwys mynychu sioeau masnach a gweithio gyda gweithredwyr i gynnwys profiadau Sir Fynwy yn eu teithlenni.
- Gofynnodd y Cadeirydd a oedd arenillion a pris o ran ymwelwyr yn cael ei gyfrifo y pen y dydd, neu'n cynnwys arhosiad dros nos. Eglurodd y swyddog bod yr adroddiad yn ymdrin â dau fetrig gwahanol: effaith economaidd fesul ymwelydd (arenillion ymweliad) ac effaith economaidd fesul diwrnod ymwelydd. Yr effaith economaidd gyfartalog fesul ymwelydd yw £144, sy'n amrywio'n sylweddol rhwng ymwelwyr dydd ac ymwelwyr sy'n aros. Mae ymwelwyr dydd yn cyfrannu rhwng £42 a £279, tra bod ymwelwyr sy'n aros yn cyfrannu £439, sy'n cynnwys eu costau llety dros nos. Yr effaith economaidd gyfartalog fesul diwrnod ymwelydd yw £93.43.
- Gofynnodd y Cadeirydd beth y gellir ei wneud, neu beth a argymhellir, i ymdrin â'r wasgfa ar elw hunanarlwyo o'r gyfradd llenwi 182 diwrnod. Cytunodd y swyddog fod yna risg, ac nad yw maint y risg yn hysbys, ond o'r adborth rheolaidd a dderbynnir gan weithredwyr llety hunanarlwyo, yr hyn sy'n achosi'r anhawster mwyaf iddynt yw'r trothwy defnydd o 182 diwrnod.
- Gofynnodd y Cadeirydd am y berthynas rhwng yr adroddiad hwn a'r CDLI Newydd. Eglurodd yr Aelod Cabinet bod trafodaethau gyda'r Aelod Cabinet dros Gynllunio a Datblygu Economaidd a swyddogion wedi tynnu sylw at y ffaith bod gweithredwyr twristiaeth yn agored i wahanol ddulliau o ran gweithredu. Mae'r tîm yn barod i gydweithio ac annog y gweithredwyr hyn i ddod i'r sir. Mae ganddynt nifer o ddolenni ar eu gwefannau, megis MonLife a Visit
- Monmouthshire, sy'n darparu digon o gyfleoedd ar gyfer twristiaeth. Pwysleisiodd fod lle yn y CDLI Newydd i ddatblygiadau cadarnhaol at ddibenion twristiaeth a chydweithio gyda gweithredwyr wrth symud ymlaen.
- Cynigiodd y Cynghorydd Brown bod y pwyllgor yn rhoi argymhelliad i Lywodraeth Cymru y dylid adolygu'r trothwy deiliadaeth 182 diwrnod – **CAM GWEITHREDU**

Crynodeb y Cadeirydd:

Diolch i'r Aelod Cabinet a'r swyddogion. Codwyd nifer o bwyntiau gan y pwyllgor gan gynnwys cwestiynau am gynyddu llety hunanarlwyo preifat ac effaith trethi, tagfeydd traffig, a chynlluniau parcio a theithio; hyrwyddo Sir Fynwy a mynegi diddordeb mewn clywed adroddiadau ar effaith gwahanol fathau o lety; ymholiadau am sut mae

ymwelwyr yn cyrraedd ac yn teithio o fewn yr ardal, a gwerth llety hunanarlwyo; trafod yr hyn sy'n gyrru ymwelwyr a'u disgwyliadau, a gofyn am gyllid trawsffiniol posibl; pwysleisio pwysigrwydd twristiaeth i Sir Fynwy a'r angen i sicrhau bod twristiaid yn dychwelyd, gan grybwyll y Cynllun Corfforaethol a'r Cynllun Rheoli Cyrchfan sydd ar y gorwel; a chafwyd trafodaeth ar yr Arenillion Ymwelwyr o'r dreth gyngor ac elw, yn ogystal â goblygiadau'r rheol deiliadaeth 182 diwrnod ar gyfer llety hunanarlwyo, a'r CDLI Newydd.

Cytunodd y pwyllgor i ddrafftio llythyr at Lywodraeth Cymru, gyda chymorth swyddogion, er mwyn mynd i'r afael â'r heriau sy'n codi yn sgil y trothwy deiliadaeth 182 diwrnod ar gyfer llety hunanarlwyo a'i effaith ar economi twristiaeth Sir Fynwy. Mae angen i'r ddeddfwriaeth fod yn ei lle er mwyn i lety hunanarlwyo gael ei reoleiddio'n briodol.

5. Blaenraglen Gwaith a Rhestr Weithredu y Pwyllgor Craffu Lle

Diweddarwyd yr aelodau bod yr eitem Ansawdd Dŵr ar gyfer y cyfarfod nesaf wedi'i ehangu i gynnwys pryderon am garthffosiaeth yn ardal Drenewydd Gellifarch, ar gais y Cynghorydd Brown. Gofynnwyd i'r aelodau am eu meysydd diddordeb penodol, yn ymwneud â Theithio Llesol yn dilyn cam gweithredu'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bod Craffu'n adolygu llwyddiant cynlluniau ac yn ceisio sicrwydd bod cynnydd digonol yn cael ei wneud. Bydd swyddogion yn e-bostio aelodau am awgrymiadau ar gyfer meysydd i graffu arnynt yn y dyfodol – **GWEITHREDU**

Mynegodd y Cynghorydd Strong bryder efallai na fyddai'r Strategaeth Llifogydd yn barod tan yr Haf; atgoffwyd swyddogion ei fod wedi bod ar raglen waith y pwyllgor ers peth amser a'i fod yn y Cynllun Corfforaethol – mae swyddogion craffu yn disgwyl iddo ddod ym mis Mawrth. Gofynnodd y Cynghorydd Brown am i'r pwyllgor gael y wybodaeth ddiweddaraf am y Ddeiseb Lloches Nos – **GWEITHREDU**.

Nododd swyddogion craffu awgrym y Cynghorydd Brown i ychwanegu Cas-gwent at y rhestr o Gynlluniau Creu Lleoedd i graffu arno – mae swyddogion craffu wedi gofyn am ddiweddariad ar y rhain. Awgrymodd y Cynghorydd Strong bod oedran y sir yn cael ei gynnwys yn y Cynlluniau Creu Lleoedd ac awgrymodd y Cynghorydd Dymock y dylid gwahodd Cynghorau Tref a Chynghorau Cymuned i gymryd rhan hefyd. Anogodd y Cadeirydd y trigolion i ddod i siarad â'r pwyllgor am unrhyw bryder.

6. Cynllunydd Gwaith y Cabinet a'r Cyngor

7. Cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Hydref 2024

Cadarnhawyd y cofnodion, cynigwyd gan y Cynghorydd Strong ac eiliwyd gan y Cynghorydd Brown, a nododd y cywiriad a ganlyn: 'Mountain Road' i'w newid am 'Moun-ton Road'.

8. Cyfarfod nesaf: 5 Rhagfyr 2024 am 10 a.m.

Mae'r cyfarfod am 2pm.